OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 321 (Cy.52)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Chwefror 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Mawrth 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 17(1) a (2) o Fesur Addysg (Cymru) 2009(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a dod i ben

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) 2012 a deuant i rym ar 6 Mawrth 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 30 Mehefin 2015.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cyfnod treialu" ("*pilot period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau ar 6 Mawrth 2012 ac yn dod i ben ar ddiwedd 30 Mehefin 2015;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**2**);

ystyr "Deddf 2010" ("*the 2010 Act*") yw Deddf Cydraddoldeb 2010(**3**); ac

ystyr "Tribiwnlys" ("*Tribunal*") yw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

### Awdurdodau lleol ac ardaloedd penodedig

**3.** At ddibenion adran 17(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2009, awdurdodau lleol penodedig yw Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac ardaloedd penodedig yw eu hardaloedd.

(**1**) 2009 mccc 5 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/1651 (Cy.187).
(**2**) 1996 p.56.
(**3**) 2010 p.15.

**Hawl Plentyn i apelio neu wneud hawliad i'r Tribiwnlys**

**4.** Yn ystod y cyfnod treialu—

(a) ni chaiff plentyn apelio i'r Tribiwnlys yn unol ag adran 322ZA o Ddeddf 1996 ond os yw awdurdod lleol penodedig yn gyfrifol am y plentyn;

(b) ni chaiff person wneud hawliad i'r Tribiwnlys yn unol â pharagraff 3A o Atodlen 17 i Ddeddf 2010 bod corff sy'n gyfrifol am ysgol wedi mynd yn groes i Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2010 ond os yw'r ysgol mewn ardal benodedig;

(c) nid yw'r dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol gan adrannau 332ZB, 332AA, 332BA a 332BB o Ddeddf 1996 yn gymwys ond i'r awdurdodau lleol penodedig; ac

(ch) nid yw'r dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol gan baragraffau 6B, 6C a 6D o Atodlen 17 i Ddeddf 2010 yn gymwys ond i'r awdurdodau lleol penodedig.

**Gwybodaeth**

**5.** Rhaid i'r Tribiwnlys, awdurdod lleol penodedig a chorff sy'n gyfrifol am ysgol mewn ardal benodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl cael cais, roi unrhyw wybodaeth i Weinidogion Cymru y maent yn gofyn amdani er mwyn asesu, monitro a gwerthuso gweithrediad y darpariaethau sy'n cael eu treialu.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

8 Chwefror 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn a wnaed o dan adran 17(1) a (2) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 ("Mesur 2009") yn dod i rym ar 6 Mawrth 2012.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i dreialu darpariaethau Deddf Addysg 1996 a Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y'u diwygiwyd gan Ran 1 o Fesur 2009.

Effaith y Rheoliadau hyn, o'u cymryd ynghyd â'r darpariaethau yn y Gorchymyn Cychwyn sy'n dod â Rhan 1 o Fesur 2009 i rym ar 6 Mawrth 2012, yw na fydd y darpariaethau hynny yn gymwys ond at ddibenion treialu yn ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Wrecsam. Pan fydd y Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith bydd y darpariaethau yn Rhan 1 o Fesur 2009 yn gymwys yn awtomatig i Gymru gyfan.

Mae rheoliad 2 yn diffinio'r cyfnod treialu.

Mae rheoliad 3 yn pennu mai Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'u priod ardaloedd fydd yn treialu'r dyletswyddau a'r hawliau newydd.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth am yr hawl i wneud apêl anghenion addysgol arbennig neu wneud hawliad am wahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("y Tribiwnlys") yn ystod y cyfnod treialu ac mae'n pennu'r dyletswyddau a osodir ar Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ystod y cyfnod treialu.

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud cais am wybodaeth oddi wrth y Tribiwnlys, neu Gyngor Sir Caerfyrddin, neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, neu gorff sy'n gyfrifol am ysgol yn Sir Gaerfyrddin neu Wrecsam.